**Rebecca Evans AC/AM**
**Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Social Services and Public Health**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref: MA-L/RE/5425/16

Dai Lloyd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

4 Ionawr 2017

Annwyl Dai Lloyd,

**Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)**

Hoffwn ddiolch i chi a'r Pwyllgor am y cyfle i drafod Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) ar 1 Rhagfyr 2016.

Yn ystod y drafodaeth am anghydraddoldebau iechyd, dywedais y byddwn yn ysgrifennu at y Pwyllgor gyda rhagor o wybodaeth ynghylch sut y gallai deddfwriaeth roi sylw i'r angen i sicrhau bod Cynlluniau Tymor Canolig Integredig y byrddau iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG yn nodi gwahanol anghenion eu cymunedau ac yn ymateb i'r anghenion hynny. Trafodwyd y mater hwn yn adroddiad blynyddol diweddar y Prif Swyddog Meddygol.

O dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, rhaid i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i'r byrddau iechyd, gan ofyn iddynt baratoi cynllun tair blynedd sy'n dangos sut y byddant yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r dyletswyddau sy'n ymwneud â'u cyllid. Rhaid iddynt hefyd ddangos sut y byddant yn gwella iechyd y bobl y maent yn gyfrifol amdanynt a'r gofal iechyd a ddarperir. Y cynlluniau hyn, a baratoir gan fyrddau iechyd, yw'r mecanwaith ar gyfer rhoi effaith i'r ddeddf uchod. Mae system fanwl ar waith ar gyfer rhoi cyfarwyddyd mewn perthynas â chynlluniau a'u cymeradwyo, ac ym mis Hydref 2016, rhoddodd Gweinidogion Cymru gyfarwyddyd i fyrddau iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG drwy Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2017-20.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy’n fodlon felly bod y fframwaith deddfwriaethol presennol yn darparu’r mecanwaith mwyaf priodol ar gyfer rhoi sylw i’r materion a drafodir yn adroddiad blynyddol y Prif Swyddog Meddygol.

Yn ystod y drafodaeth, cyfeiriais at y darpariaethau ym Mil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) sy’n ymwneud ag asesiadau o effaith ar iechyd. Bydd y darpariaethau hyn yn rhoi hwb i’r ymgyrch i leihau anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru. Bydd y gofyniad i gynnal asesiadau o effaith ar iechyd mewn amgylchiadau penodol yn helpu i sicrhau bod penderfyniadau allweddol a wneir gan gyrff cyhoeddus, gan gynnwys byrddau iechyd, yn seiliedig ar wybodaeth sy’n deillio o asesiadau o’r effeithiau tebygol ar iechyd meddwl ac iechyd corfforol. Golyga hynny y bydd angen i fyrddau iechyd a chyrff cyhoeddus eraill gydweithio mwy er mwyn mynd i’r afael â ffactorau sy’n achosi anghydraddoldebau iechyd, ond sydd y tu allan i gwmpas y sector iechyd.

Rwy’n gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i’r Pwyllgor, ac rwy’n edrych ymlaen at ddarparu rhagor o dystiolaeth sy’n gysylltiedig â’r Bil yn fuan.

Cofion cynnes,



**Rebecca Evans AC / AM**
Y Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Social Services and Public Health